**Annwyl Fyfyriwr Mynediad Uniongyrchol (Lefel 6)**,

**Gwybodaeth Bwysig am yr Wythnos Sefydlu 2018**

Llongyfarchiadau ar gael eich derbyn i Lefel 6 (blwyddyn dau) rhaglen BSc (Anrh) Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer o fewn Ysgol Gwyddorau Chwaraeon ac Iechyd Caerdydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am eich cwrs a manylion ychwanegol ynglŷn â'r Rhaglen Sefydlu ar gyfer myfyrwyr mynediad uniongyrchol.

Mae'r **wythnos sefydlu yn dechrau dydd Llun 17 Medi 2018.** Mae llawer o weithgareddau'n digwydd yn ystod yr wythnos ac mae'r manylion llawn ar gael drwy wefan newydd y myfyrwyr. Yn benodol efallai y byddwch chi am fynychu Ffair y Glas ddydd Mercher 19 Medi yn y Ganolfan Genedlaethol Athletau Dan Do (NIAC) ar gampws Cyncoed. Bydd hon yn gyfle i gwrdd ag Undeb y Myfyrwyr a dysgu am y gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol sydd ar gael yn ogystal â'r Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gallu cefnogi'ch amser ym Met Caerdydd.

Yn rhan o'r broses sefydlu, **dylech chi gysylltu â'ch Tiwtor Blwyddyn, Dr Declan Connaughton, dconnaughton@cardiffmet.ac.uk i drefnu i'r ddau ohonoch gwrdd ar ddydd Llun 17 Awst 2018.** Bydd hwn yn gyfle gwerthfawr i drafod y rhaglen, modiwlau dewisol, a'r cynlluniau penodol ar gyfer yr wythnos sefydlu. **Cysylltwch â'ch Tiwtor Blwyddyn erbyn dydd Llun 10 Medi 2018 fan bellaf** i drefnu hyn. Dylech chi fod yn ymwybodol hefyd y bydd gennych **gyfarfod â'ch Tiwtor Blwyddyn a'ch cyd-fyfyrwyr ddydd Iau 20 Medi 2018 13:00-15:00 yn C1.11 (LT2), campws Cyncoed.**

**O ran ymrestru**, ni ddylech chi hunan-ymrestru gan na fydd gennych chi ddigon o wybodaeth i ddethol eich modiwlau dewisol. Bydd eich Tiwtor Blwyddyn yn rhoi gwybodaeth am ddewis modiwlau yn ystod yr wythnos sefydlu. Os nad ydych wedi darparu tystiolaeth o'ch cymwysterau mynediad, dylech chi **ddod â chopi o'ch cymwysterau,** ar ffurf tystysgrif neu drawsgrifiad.

Yn ystod yr wythnos sefydlu, byddwch yn derbyn gwybodaeth gyfredol am yr amserlen addysgu a materion pwysig eraill mewn perthynas â'ch rhaglen a'ch blwyddyn astudio. Bydd y map llwybr isod yn rhoi arweiniad i chi am y modiwlau sydd ar gael i'ch rhaglen a gallwch chi drafod y rhain yn fanylach â'ch Tiwtor Blwyddyn. Er gwybodaeth, fe welwch isod:

a) Map Llwybr isod sy'n rhoi trosolwg o strwythur eich cwrs.
b) Dolen â dyddiadau Tymhorau ac wythnosau addysgu 2018-19
c) Dolen i archebu cit. Cliciwch ar y ddolen hon i fynd i Siop Ar-lein Met Caerdydd er mwyn archebu eich cit. Noder bod holl fyfyrwyr yr Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd yn cael pecyn cit safonol am ddim ac mae'n rhaid talu am git ychwanegol. Ceir rhagor o fanylion drwy glicio ar y ddolen a chaiff yr holl gitiau eu casglu yn ystod yr Wythnos Sefydlu.

Dylech chi roi sylw hefyd i'r gofynion ymrestru ar wefan newydd y myfyrwyr a gwneud yn siŵr eich bod yn dod â'r dogfennau perthnasol gyda chi. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau mae'r swyddfa llety yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr i gynorthwyo myfyrwyr i sicrhau llety ac yn gallu rhoi manylion landlordiaid lleol a myfyrwyr eraill sy'n dymuno rhannu llety.

Edrychaf ymlaen at eich gweld chi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau yn y cyfamser, mae pob croeso i chi gysylltu â'r Ysgol drwy ccprogadmin@cardiffmet.ac.uk neu ffonio 02920 416185 / 6506 neu edrych ar wefan newydd y myfyrwyr.

Cofion Cynnes,

**Dr Rob Meyers,**
**Cydlynydd Rhaglenni Israddedigion,**
**Ysgol Gwyddorau Chwaraeon ac Iechyd Caerdydd**

## BSc (Anrh) Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer 2018-19

**LEFEL 6 – MAP LLWYBR**

| **Teitl y Modiwl** | **Rhif y Modiwl** | **Gwerth Credyd** | **Lefel** | **Gorfodol/ Dewisol** | **Tymor** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorfodol:** | | | | | |
| Prosiect Annibynnol | SSP6000 | 40 | 6 | G/\|D | 1,2 & 3 |
| Traethawd Estynedig | SSP6900 | 40 | 6 | G/D | 1, 2 & 3 |
| **Dewisiadau**<br>Dewiswch 60 neu 80 credyd o: | | | | | |
| Biomecaneg Chwaraeon ac Ymarfer | SSP6012 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Seicoleg Ymarfer | SSP6013 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Seicoleg Chwaraeon | SSP6014 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Ffisioleg Uwch Ymarfer ac Iechyd | SSP6015 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Ffisioleg Ymarfer ar gyfer Iechyd | SSP6915 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Ffisioleg Uwch Chwaraeon | SSP6016 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| **A Dewiswch 0 neu 20 Credyd o:** | | | | | |
| Dysgu Seiliedig ar Broblemau mewn Hyfforddi | SSP6010 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Dysgu Seiliedig ar Ddatrys mewn Hyfforddi | SSP6910 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Cryfder a Chyflyru Uwch | SSP6017 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Rheoli Chwaraeon Perfformiad Uchel | SSP6022 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon | SSP6026 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |
| Profiad Gwaith | SSP6021 | 20 | 6 | D | 1,2 & 3 |